

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Rydym wedi cael wythnos hyfryd arall yn yr ysgol gyda'n gilydd. Mae ymarferion Eisteddfod yr Urdd wedi cychwyn a diolch i'r staff ac i'r disgyblion am eu brwdfrydedd!

### Trosolwg y tymor

Y tymor yma, prif gysyniad yr ysgol yw "Gwrthdaro a Datblygiad Technoleg". Mae pob dosbarth wedi penderfynu ar is-gysyniad ac roedd y disgyblion yn rhan o lywio'r is-gysyniadau yma yn ystod eu diwrnodau darganfod. Mae pob blwyddyn wedi paratoi rhagolwg manwl o waith y tymor a bydd y cynlluniau yma yn cael eu rhannu gyda chi heddiw.

### Gwibdeithiau

Dydd Llun, aeth blwyddyn 4 ar ymweliad i Fosg Bilal yn Nhreganna. Cafodd y plant amser arbennig iawn yn y Mosg ac roedd yr ymweliad wedi cyfoethogi eu dealltwriaeth o is-gysyniad y tymor, sef "Crefyddau pob dydd/Sut mae bywydau'r bobl sy'n byw yn ein cymuned yn amrywio?"

Heddiw, aeth blwyddyn 6 ar ymweliad i Gastell Caerdydd er mwyn dysgu mwy am eu is-gysyniad nhw sef "Arweinyddiaeth, Grym a Chrefydd". Cafodd y disgyblion weithdai yn seiliedig ar yr Ail Ryfel Byd gan ddysgu yn benodol ar yr arweinwyr yn yr Ail Ryfel Byd. Diolch i'r staff am drefnu'r ymweliadau ac i'r rhieni wnaeth wirfoddoli.

### Bore Agored

Heddiw roedd yn hyfryd croesawu darpar rieni i'r ysgol ar gyfer bore agored y Feithrin. Cafodd y rhieni newydd gyflwyniad i'n gweledigaeth ysgol, cyfle i ymweld â'r dosbarth Meithrin ac yna taith o gwmpas yr ysgol. Diolch i bawb wnaeth ddod ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i deulu Treganna yn y dyfodol agos.

## Calendr



Colorfoto  
Iluniau  
dosbarthiadau  
4/2/25

Dydd Miwsig  
Cymru  
7/2/25

Diwrnod  
Diogelwch ar y  
Wê  
11/11/25

## Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Diolch i bawb wnaeth ddod i gyfarfod y GRhA yn "Nyth" yr ysgol nos Fawrth. Mae nifer o bethau cyffrous wedi eu cynllunio ar gyfer y ddau dymor nesaf yn cynnwys disgo, Ffair Lyfrau, Standin Sul y Mamau a Ffair Haf. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Dyma wybodaeth am y Ffair Lyfrau bydd yn cael ei gynnal yn ystod wythnos Diwrnod y Llyfr. Dewch a'r llyfrau i'r dderbynfa erbyn yr 28ain o Chwefror.

### DIWRNOD Y LLYFR



### FFAIR LYFRAU

Os oes gennych chi unrhyw lyfrau Cymraeg neu Saesneg ychwanegol, boed ar gyfer oedolion neu un bach, gadewch i ni roi cartref newydd iddyn nhw! Gall eich haelioni helpu i ledaenu'r cariad at ddarllen a chodi arian i Ysgol Treganna

## Colorfoto

Bydd Colorfoto yn yr ysgol yn tynnu lluniau dosbarthiadau ar ddydd Mawrth, y 4ydd o Chwefror. Gofynnwn i bawb wisgo gwisg ysgol i'r ysgol ar y diwrnod yma. Diolch yn fawr.

## Makaton

Fel ysgol, byddwn yn cyflwyno arwydd Makaton bob wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.



## Patrwm iaith

### Wythnos nesaf, dyma patrwm iaith yr wythnos

Rwy'n cytuno gyda...

Rwy'n anghytuno gyda...

Dydw i ddim yn hoffi

### Her

Rwyf o blaid ..oherwydd

Rwyf yn erbyn...oherwydd

### Testun trafod yr wythnos

Un person yr hoffwn gwrdd ag ef/ hi yw...

### Cân yr wythnos

Sylfaen a Hywel Pitts- Creu dy Fyd

### Idiom yr wythnos

Dysgu ar gof

